**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu grantiau ar gyfer gwell effeithlonrwydd ynni anheddau penodol.

Mae Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 1997, a wnaed o dan Ddeddf 1990, yn darparu ar gyfer rhoi grantiau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn anheddau sydd wedi’u meddiannu gan bersonau ar incwm isel neu bersonau oedrannus. Mae’r grantiau hyn yn cyfrannu at gost gwaith a chost cyngor arbenigol.

Mae’r rheoliadau hyn yn cynyddu uchafswm y grantiau hyn o £315 i £500 am gais am waith (lle caiff y gwaith ei wneud gan osodwr cofrestredig) ac o £160 i £250 am gais am y deunyddiau yn unig. (Mae’r termau Saesneg cyfatebol "works application" a "materials-only application" wedi’u diffinio yn Rheoliadau 1997).

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor dynnu sylw’r Cynulliad atynt yn arbennig.

## Sylwadau Cyffredinol

Gallai’r Nodyn Esboniadol (er mor gynhwysfawr) fod wedi bod yn fwy defnyddiol pe bai wedi’i deilwra yn unswydd i nodi’r sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru h.y. bod y pwerau galluogi bellach yn nwylo’r Ysgrifennydd Gwladol a’r Cynulliad ill dau.

Gallai Rheoliad 3 fod wedi’i ddrafftio yn symlach ac yn fyrrach drwy gynnwys darpariaeth a fyddai’n disodli’r ffigurau a dim mwy – e.e. "Yn Rheoliad 6(1)(a), yn lle £315 rhowch £500 ac yn Rheoliad 6(1)(b) yn lle £160 rhowch £250".

Hefyd, yr oedd geiriad gwreiddiol Rheoliad 6(1)(a) yn pennu bod y grant yn cael ei dalu am

"works carried out", ond mae testun y diwygiad yn Rheoliad 3 wedi hepgor y geiriau "carried out". Gan nad yw’r geiriau hynny wedi’u hepgor o Reoliad 6(1)(b), rhagdybir mai camgymeriad oedd hyn. Mae’r geiriau "carried out" yn awgrymu na wneir y taliadau nes bod y gwaith wedi’i orffen – ond gan fod hynny yn cael ei bennu mewn man arall yn y Rheoliadau, nid yw’r ffaith bod y geiriau wedi’u hepgor yma yn effeithio ar ddilysrwydd y Rheoliadau.

Yn olaf, dylai’r ddau is-baragraff yn Rheoliad 3 (yn y fformat y mae ynddo) fod yn (a) a (b), ac nid (1) a (2).

**DYLAN M HUGHES**
**Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

**10 Mai 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-119